YR EGLWYS yng NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

**Corff Llywodraethol Yr Eglwys yng Nghymru**
**The Governing Body of The Church in Wales**

# Pwyllgor Sefydlog

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Sefydlog Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ar-lein ar 9 Gorffennaf 2024.

## Yn bresennol:

Aelodau *Ex-officio*

Y Parchedicaf Archesgob Cymru
Y Gwir Barchedig Esgob Llanelwy
Y Gwir Barchedig Esgob Abertawe ac Aberhonddu
Y Gwir Barchedig Esgob Llandaf
Y Tra Pharchedig Nigel Williams, Dirprwy Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr

Enwebwyd gan Bwyllgorau Sefydlog yr Esgobaeth

Y Parchedig Ganon Dr Trish Owens
Y Parchedig Richard Wood
Mr Keith Wadcock
Yr Hybarch Paul Mackness
Mr Tim Llewelyn (Cadeirydd)
Yr Hybarch Rod Green
Yr Hybarch Stella Bailey
Y Canon Caroline Woollard
Y Parchedig Ganon Justin Davies
Mr Paul Murray

Yn bresennol:
Ysgrifennydd y Dalaith, Swyddog y Corff Llywodraethol, y Rheolwr Llywodraethu, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, y Cyfarwyddwr Cenhadaeth a Strategaeth, y Swyddog Llywodraethu, Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo a'r Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd

## Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

Y Gwir Barchedig Esgob Mynwy

Y Gwir Barchedig Esgob Tyddewi
Y Gwir Barchedig Esgob Enlli
Yr Athro Medwin Hughes, Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr
Ei Anrhydedd y Barnwr Andrew Keyser CB
Mr Paul Whittaker CBE
Dr Heather Payne

## Gair o groeso

Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod.

## Gweddi

Offrymwyd gweddïau agoriadol gan y Parchedig Ganon Dr Trish Owens

## Cofnodion cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Ebrill a 15-16 Mai 2024

**24/19**

Cymeradwyodd y Pwyllgor Sefydlog gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Ebrill a 15-16 Mai 2024 gan nodi papur ar faterion yn codi

## Adolygu Hawlebau ac Esemptiad Eglwysig

**24/20**

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Athro Norman Doe i gyflwyno ei adroddiad ar ran gyntaf ei adolygiad o'r Drefn Hawlebau.

Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod Mainc yr Esgobion wedi cysylltu â'r Athro Norman Doe CB, Canghellor Esgobaeth Bangor a Chyfarwyddwr LLM Prifysgol Caerdydd mewn cyfraith ganonaidd, i gynnal adolygiad o'r drefn hawlebau.

O ran cefndir, roedd Gorchymyn Llywodraeth Cymru 2018 yn esemptio'r Eglwys yng Nghymru rhag gorfod cael Cydsyniad Adeilad Rhestredig ar gyfer gwaith i'w 914 o adeiladau eglwysig rhestredig a ddefnyddiwyd ar gyfer addoli, ar yr amod bod gan yr Eglwys yng Nghymru reolaethau mewnol ar waith a oedd yn cyfateb i Gydsyniad Adeilad Rhestredig, ac a oedd yn bodloni canllawiau Cadw. Nodwyd y rheolaethau mewnol sydd eu hangen yn y drefn hawlebau a oedd yn gweithredu yn lle Cydsyniad Adeilad Rhestredig, i fodloni gofynion Gorchymyn 2018.

Gwerthusodd rhan gyntaf yr adolygiad o'r drefn hawlebau fuddion Esemptiad Eglwysig ac roedd y gwaith hwn wedi dod i ben. Y cam cyntaf oedd penderfynu a oedd yr Eglwys yng Nghymru yn awyddus i barhau i elwa ar Esemptiad Eglwysig ai peidio, gan y byddai'r ateb i'r cwestiwn hwnnw yn dylanwadu ar yr adolygiad o'r drefn hawlebau yn ehangach, a'i haddasrwydd o ran canllawiau Cadw.

Ym mis Ionawr 2024, ysgrifennwyd papur briffio ar Orchymyn 2018 a chanllawiau Cadw, ac yn dilyn hynny cynhaliwyd ymgynghoriad gyda llawer o randdeiliaid - gan gynnwys yr esgobion, Cangellorion esgobaethol, Cofrestryddion ac ysgrifenyddion, ysgrifenyddion Pwyllgorau Cynghori Esgobaethol, ac archddiaconiaid. Yna trafodwyd y papur briffio gyda'r Comisiwn Cadeirlannau ac Eglwysi a Cadw.

Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, paratowyd a dosbarthwyd adroddiad drafft i Fainc yr Esgobion ac yna i'r Pwyllgor Sefydlog. Roedd yr adroddiad mewn tair rhan: rhan A ar natur Esemptiad; ei fanteision i'r Eglwys yng Nghymru; a'r cyfrifoldebau a'r beichiau ar yr Eglwys yng Nghymru. Roedd Rhan B yn cynnwys crynodeb, gyda sylwadau a chanlyniadau'r ymgynghoriad. Roedd Rhan C yn cynnwys yr argymhelliad bod yr Eglwys yng Nghymru yn cadw Esemptiad Eglwysig. Cytunodd y Fainc a'r Pwyllgor Sefydlog i gefnogi'r argymhelliad yn adroddiad yr Athro Doe, sef cadw Esemptiad Eglwysig.

Felly, yn unol ag argymhelliad adroddiad yr Athro Doe, byddai'r Pwyllgor Sefydlog yn argymell bod y Corff Llywodraethol:

(a) yn cymeradwyo casgliad y Pwyllgor Sefydlog y dylai'r Eglwys yng Nghymru barhau i weithredu trefn o reolaethau mewnol sy'n ddigon cadarn i alluogi'r Eglwys yng Nghymru i gadw'r Esemptiad Eglwysig rhag Cydsyniad Adeilad Rhestredig;

(b) yn gofyn i adolygiad y Drefn Hawlebau a amlinellir yn adroddiad y Pwyllgor Sefydlog fynd yn ei flaen i gam nesaf ei waith.

Byddai'r Pwyllgor Sefydlog yn rhoi gwybod i'r Corff Llywodraethol ei resymau dros argymell y camau hyn, a oedd fel a ganlyn:

a. Yn y pen draw, er mai mater i Lywodraeth Cymru oedd cadw Esemptiad yr Eglwys, roedd hi'n bwysig ystyried a ddylai'r Eglwys barhau i elwa ar yr Esemptiad drwy gael system fewnol a oedd yn bodloni'r safonau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

b. Roedd a ddylai'r Eglwys fod yn rhydd o'r gofyniad i gael Cydsyniad Adeilad Rhestredig ar gyfer gwaith i'w heglwysi hanesyddol yn fater pwysig. Roedd yn bwysig oherwydd bod hyn yn ymwneud â phwy oedd yn penderfynu ar waith i adeiladau a oedd yn hanfodol i genhadaeth graidd a gweinidogaeth yr Eglwys – ai'r Eglwys neu'r Wladwriaeth. Roedd adeiladau eglwysig yn rhan allweddol o dreftadaeth Cymru yr oedd cyfrifoldeb ar yr Eglwys i'w gwarchod, ond yn anad dim roeddent yn fannau cysegredig i addoli Duw, pregethu'r Efengyl, gweinyddu'r sacramentau, a gwasanaethu'r gymuned.

c. Roedd y system sifil o Gydsyniad Adeilad Rhestredig ac Esemptiad Eglwysig gyda'i gilydd yn cynrychioli'r Wladwriaeth yn arfer yn gyfreithiol a chyfreithlon ei gwarchodaeth o'r dreftadaeth eglwysig.

d. Roedd Llywodraeth Cymru a'i gwasanaeth amgylchedd hanesyddol, sef Cadw, yn fodlon ar hyn o bryd fod gan yr Eglwys yng Nghymru broses gadarn (sef y Drefn Hawlebau) sy'n cyfiawnhau'r Esemptiad.

e. Roedd gan yr Eglwys lawer o fuddion y gellid eu nodi yn deillio o'r Esemptiad a oedd yn weddol gyson â'i hethos; roedd y rhain yn cynnwys galluogi'r Eglwys i wneud y canlynol: (a) gwneud ei phenderfyniadau ei hun, fel corff ymreolaethol, ar waith i'w hadeiladau eglwysig rhestredig; (b) mwynhau rhyddid crefyddol wrth reoli gwaith i'w hadeiladau eglwysig rhestredig yn unol â threfn (y Drefn Hawlebau) a oedd yn adlewyrchu cymuned a hunan-ddealltwriaeth yr Eglwys; (c) cyflawni ei chenhadaeth a'i gweinidogaeth yng nghyd-destun safonau treftadaeth sifil; (ch) trin yn gyfartal fel canolfannau cenhadaeth, gweinidogaeth ac addoliad pob un o adeiladau'r eglwys (rhestredig a

heb eu rhestru) o dan un drefn (y Drefn Hawlebau); a (d) gweithredu yn y gymdeithas ehangach fel dinesydd da

f. Roedd y cyfrifoldebau ar yr Eglwys sy'n codi o Esemptiad yn dderbyniol i'r Eglwys; sef: (a) sicrhau mai'r brif ystyriaeth mewn achosion hawlebau o ran eglwysi rhestredig oedd cydbwyso treftadaeth â chenhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys; (b) arfer swyddogaeth sydd o leiaf yn lled-gyhoeddus yn hytrach na threfn Cydsyniad Adeilad Rhestredig sifil; (c) cael prosesau rheoli mewnol ar gyfer gwaith i eglwysi rhestredig sy'n cyfateb o leiaf i'r system Cydsyniad Adeilad Rhestredig; (ch) cydymffurfio â chod ymarfer Cadw; (d) cyflwyno adroddiad blynyddol i Cadw ar sut roedd y Drefn Hawlebau wedi gweithio a chyflwyno i Lywodraeth Cymru unrhyw achos o ddileu'r Esemptiad ar gyfer pob adeilad neu unrhyw adeilad(au) eglwysig. Cydnabu'r Pwyllgor Sefydlog mai pwrpas sylfaenol pob adeilad eglwysig oedd hwyluso cenhadaeth a gweinidogaeth yr Efengyl, yn hytrach na'u cadwraeth fel rhan o dreftadaeth eglwysig Cymru, ond roedd yr Esemptiad yn galluogi'r Eglwys i ddarparu ar gyfer y ddwy elfen hon mewn tensiwn creadigol.

g. Roedd canllawiau cyfredol Cadw yn glir ac yn ymarferol - ac roedd yn gyfrwng i Cadw a'r Eglwys fod yn bartneriaid ymroddedig i sicrhau rheolaeth gyfrifol yr Eglwys o'i gwaith i'w hadeiladau eglwysig rhestredig gan wasanaethu'r ddwy agwedd sef diogelu'r dreftadaeth a chyflawni cenhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys. Roedd hon yn bartneriaeth werthfawr ac anogodd y Pwyllgor Sefydlog yr Eglwys a Cadw i gydweithio yn ôl yr angen i wella canllawiau Cadw a threfn fewnol yr Eglwys.

h. Byddai gadael yr Esemptiad yn codi gormod o ansicrwydd i'r Eglwys yn sgil gorfod cael Cydsyniad Adeilad Rhestredig ar gyfer gwaith ar ei heglwysi. Roedd mwy o fanteision i gadw'r drefn nag o'i dileu.

Diolchodd y Pwyllgor Sefydlog i'r Athro Norman Doe a'r rhai a'i cynorthwyodd, y Parchedig Russell Dewhurst, Alex Glanville a Tina Andrew. Cytunwyd y byddai adroddiad interim yr Athro Doe yn cael ei gynnwys er gwybodaeth gyda phapurau'r Corff Llywodraethol yn ei gyfarfod ym mis Medi 2024; y bwriad oedd cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar wefan yr Eglwys yng Nghymru maes o law.

## Materion y Corff Llywodraethol

**24/21**

Trafododd y Pwyllgor Sefydlog yr eitemau canlynol a oedd yn ymwneud â'r Corff Llywodraethol.

(i) Cofnodion Cyfarfod y Corff Llywodraethol Ebrill 2024

Cymeradwyodd y Pwyllgor Sefydlog gofnodion drafft cyfarfod y Corff Llywodraethol, Ebrill 2024 i'w dosbarthu i'r Corff Llywodraethol.

(ii) Telerau Gwasanaeth a Llawlyfr Clerigion

Nododd y Pwyllgor Sefydlog waith a wnaed yn dilyn y Cynnig Aelodau Preifat a oedd wedi cynnig newidiadau i wyliau clerigion yng nghyfarfod y

Corff Llywodraethol ym mis Ebrill 2024. Cwtogwyd y drafodaeth ar y cynnig yn sgil Rheol Sefydlog yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol hyd nes y bydd cynigion pellach yn cael eu gwneud.

Trafodwyd y gwelliannau arfaethedig i Delerau Gwasanaeth Clerigion a oedd yn ceisio anrhydeddu Cynnig Aelodau Preifat gyda'r Pwyllgor Sefydlog, a nodwyd bod y gwelliannau arfaethedig wedi cael eu hystyried gan Gorff y Cynrychiolwyr a'i Bwyllgor Adnoddau Dynol.

Cytunwyd ar y gwelliannau arfaethedig ac y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Corff Llywodraethol ym mis Medi 2024. Cytunwyd i hyn gael ei wneud fel cynnig a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Sefydlog a byddai fel eitem agenda ar wahân, ac yn ategol i adroddiadau cyffredinol y Pwyllgor Sefydlog.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Sefydlog hefyd Bolisi Tadolaeth wedi'i ddiweddaru i'w gyhoeddi yn ei adroddiad i'r Corff Llywodraethol, i'w gynnwys yn y Llawlyfr Clerigion.

(iii) Adrodd ar gynnydd ar fframwaith Sero Net yr Eglwys yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor Sefydlog y diweddariad ar fframwaith Sero Net yr Eglwys yng Nghymru, a oedd yn cwmpasu dau brosiect strategol yn benodol, sef caffael ar y cyd a mannau gwefru cerbydau (EV) mewn eglwysi.

(iv) Trefn Cyfarfodydd Medi 2024

Trafododd a chymeradwyodd y Pwyllgor Sefydlog orchymyn busnes drafft ar gyfer cyfarfod y Corff Llywodraethol ym mis Medi 2024.

Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod Panel Aseswyr y Corff Llywodraethol ar hyn o bryd yn cynnwys Ei Anrhydedd y Barnwr Andrew Keyser CB a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol yn unig, a nododd fwriad y Llywydd i wahodd Mr Paul Whittaker CBE, (aelod etholedig lleyg, Llanelwy) i ymuno â Phanel Aseswyr y Corff Llywodraethol.

(v) Dyddiadau cyfarfodydd hyd at 2030

Trafododd y Pwyllgor Sefydlog y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Corff Llywodraethol ar gyfer y blynyddoedd hyd at 2030. Byddai'n argymell dyddiadau arfaethedig cyfarfodydd rhwng 2027 a 2030 i'r Corff Llywodraethol er mwyn caniatáu i ddyddiadau cyfarfodydd taleithiol eraill gael eu cynllunio o'u cwmpas.

Nodwyd bod y trefniadau canlynol wedi eu gwneud ar gyfer cyfarfodydd y Corff Llywodraethol yn 2025 a 2026.

**2027**

Dydd Mercher a dydd Iau 7 ac 8 Ebrill 2027
**(Sul y Pasg - 28 Mawrth)**

Dydd Mercher a dydd Iau 8 a 9 Medi 2027

**2028**

Dydd Mercher 26 a dydd Iau 27 Ebrill 2028
**(Sul y Pasg - 16 Ebrill)**
(Cadarnhawyd y dyddiadau hyn yn benodol yng nghyfarfod y CLl ym mis Medi 2024)

Dydd Mercher a dydd Iau 13 ac 14 Medi 2028

**2029**

Dydd Mercher a dydd Iau 18 a 19 Ebrill 2029
**(Sul y Pasg - 1 Ebrill)**

Dydd Mercher a dydd Iau 12 a 13 Medi 2029

**2030**

Dydd Mercher a dydd Iau 1 Mai a 2 Mai 2030
**(Sul y Pasg - 21 Ebrill)**

Dydd Mercher a dydd Iau 11 a 12 Medi 2030

(vi) Mân welliant cyfansoddiadol arfaethedig

Cynigiwyd mân welliant cyfansoddiadol yn ymwneud â statws Cadeirlan Casnewydd. Cymeradwyodd y Pwyllgor Sefydlog y drafftio arfaethedig ac argymhellodd iddo gael ei fabwysiadu gan y Corff Llywodraethol yng nghyfarfod mis Medi 2024.

Nodir y drafftio i'r gwelliant, ynghyd â nodyn esboniadol, yn Atodiad 1 i'r cofnodion hyn.

## Diweddariad yr Adran Gyfreithiol

**24/22**

Diwygiadau cyfansoddiadol

Cafodd y gwelliannau a wnaed gan y Corff Llywodraethol ym mis Ebrill eu llunio yn barod i'w lanlwytho i wefan yr Eglwys yng Nghymru.

Arweiniodd y newidiadau at adolygiad mawr o restr Cofrestrydd yr Archesgob. O ganlyniad, dilëwyd pedwar enw a hysbyswyd esgobion perthnasol yr esgobaeth er mwyn sicrhau bod ffeiliau personél y clerigion perthnasol yn gyfredol. Y bwriad oedd y byddai gan esgobion fynediad uniongyrchol at y rhestr o Hydref 2024, fel na fyddai angen i esgobion ymgynghori â'r Adran Gyfreithiol na Chofrestrydd yr Archesgob i wirio'r rhestr mwyach.

Tribiwnlys Disgyblu

Roedd un achos gerbron y Tribiwnlys, sef clerig nad oedd wedi gweinidogaethu yn yr Eglwys yng Nghymru am flynyddoedd lawer a byddai'r Tribiwnlys yn ystyried ei anghymwyso o'r weinidogaeth neu ei amddifadu o Urddau Sanctaidd maes o law.

Diwygio Disgyblu a Safonau mewn Gweinidogaeth

Hysbyswyd y Pwyllgor Sefydlog fod gwaith gweithdrefnol ar Ddiwygio Disgyblu wedi'i oedi tra bod gwaith yn mynd rhagddo ar ddiwygio Canllawiau Proffesiynol Clerigion a llunio dogfen safonau mewn gweinidogaeth.

Gweithgor Diwygio Llywodraethu

Penderfynodd y Pwyllgor Sefydlog y dylid rhoi ffrwd waith olaf y Grŵp, sef diweddaru'r Cyfansoddiad i gynnwys mabwysiadu holl ardaloedd gweinidogaeth/cenhadaeth y dalaith, i grŵp yn benodol er mwyn ystyried materion cwblhau a gwneud y diwygiadau parhaol sy'n ymwneud â meysydd gweinidogaeth a gynigiwyd gan Adolygiad yr Eglwys yng Nghymru 2012.

## Diweddariad Corff y Cynrychiolwyr

**24/23**

Cyflwynodd y Tra Pharchedig Nigel Williams, Dirprwy Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr, ei adroddiad yn absenoldeb y Cadeirydd.

Roedd Corff y Cynrychiolwyr wedi cael ei archwiliad blynyddol ac wedi paratoi ei Adroddiad Blynyddol, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Corff Llywodraethol ym mis Medi. Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor Sefydlog ar fanylion yr Adroddiad Blynyddol ac ar ymddeoliad y Pennaeth Cyllid ddiwedd mis Mehefin.

## Adroddiad diogelu

**24/24**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol yr adroddiad diogelu i'r Pwyllgor Sefydlog. Derbyniodd y Pwyllgor Sefydlog y canlynol:

- Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Diogelu
- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Diogelu 2023
- Cofnodion y Pwyllgor Diogelu 10 Mehefin 2024
- Gwybodaeth fywgraffyddol sy'n nodi profiad diogelu perthnasol Karen Dixon a Sue Henley

Yn dilyn trafodaeth, roedd y Pwyllgor Sefydlog wedi:

i. Derbyn yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Diogelu;
ii. Nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Diogelu;
iii. Cymeradwyo penodiad Karen Dixon a Sue Henley i fod yn aelodau o'r Panel Diogelu Taleithiol

## Adroddiad Mainc yr Esgobion

**24/26**

Derbyniodd y Pwyllgor Sefydlog adroddiad gan Fainc yr Esgobion a oedd yn rhoi trosolwg o'r materion a drafodwyd gan y Fainc yn ystod ei gyfarfodydd.

## Hyfforddiant i esgobion

Ym mis Mai, aeth yr Esgob Dorrien a'r Esgob David i sesiwn sefydlu yn swyddfa'r dalaith fel rhan o'u rhaglen gynefino a hyfforddiant fel esgobion newydd.

Hefyd, fel rhan o gyfarfod y Fainc ym mis Mai, cyfarfu'r esgobion â'r Rheolwr AD ar gyfer sesiwn o hyfforddiant AD, rhan o'r cwricwlwm hyfforddiant i esgobion a ffurfiwyd gan y Cyfarwyddwr Datblygu Gweinidogaeth ac a sefydlwyd ym mis Ionawr, gan ymateb i un o'r argymhellion yn adroddiad Adolygiad Mynwy.

## Blaenoriaethau'r Eglwys yng Nghymru

Yn unol â chais y Pwyllgor Sefydlog treuliodd y Fainc amser yn ei gyfarfod ym mis Mehefin yn myfyrio ymhellach ar y drafodaeth ar Flaenoriaethau'r Eglwys yng Nghymru a oedd wedi digwydd yng nghyfarfod preswyl y Pwyllgor Sefydlog ym mis Mai.

## Adroddiad y Comisiwn Athrawiaethol Sefydlog: *Cerdded mewn Didwylledd*

Ym mis Tachwedd cyfarfu'r Fainc â'r Cyfarwyddwr Ffydd, Trefn ac Undod a Deon Tyddewi, a fu'n gweithredu fel Cadeirydd y Comisiwn Athrawiaethol Sefydlog er mwyn cyflawni darn sylweddol o waith yn ystyried awdurdod ysbrydol a'r camddefnydd ohono.

Ers y drafodaeth gyda'r Fainc ym mis Tachwedd, gwnaed gwaith pellach gan y Comisiwn Athrawiaethol Sefydlog a pharatowyd dogfen gryno, a oedd yn waith a drafodwyd gyda'r Fainc yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

Byddai'r gwaith hwn yn llywio agweddau amrywiol ar hyfforddiant, gan gynnwys atgyfeirio ym maes Datblygiad Gwenidogol Parhaus (DGP) clerigion a hyfforddiant cychwynnol gweinidogol, a byddai'n cael ei gynnwys ym modiwlau hyfforddiant diogelu ac yn y rhaglen DGP.

## Panel Ymgeiswyr

Ym mis Mai, bu'r Cyfarwyddwr Datblygu Gweinidogaeth yn trafod cynigion manwl gyda'r Fainc ar ailffurfio panel penodol i gynghori'r esgobion ar ystod o amgylchiadau amrywiol a allai godi mewn perthynas ag ymgeiswyr sy'n symud tuag at gael eu hordeinio neu'r rhai a oedd ym mlynyddoedd cyntaf y weinidogaeth ordeiniedig.

## Ffydd, Trefn ac Undod

Ym mis Mehefin, cyfarfu'r Fainc â'r Cyfarwyddwr Trefn, Ffydd ac Undod, a thrafodwyd yr eitemau a nodir isod.

- **Ymgynghoriad Litwrgaidd Anglicanaidd Rhyngwladol**

  Yn 2023, gofynnwyd i bob aelod o eglwys y Cymundeb Anglicanaidd gynnig myfyrdodau ar ddwy ddogfen a gynhyrchwyd gan yr Ymgynghoriad Litwrgaidd Anglicanaidd Rhyngwladol (IALC), *The Liturgical Formation of all the Baptised* a *Virtual communion in the light of the COVID-19 pandemic*. Trafododd y Fainc yr ymateb a baratowyd ar ran yr Eglwys yng Nghymru a'i gymeradwyo i'w gyflwyno i'r Cymundeb Anglicanaidd.

- **Cymraeg yn y litwrgi**

  Roedd y Cyfarwyddwr Cenhadaeth a Strategaeth yn gweithio gyda'r Esgob Dorrien (yr esgob gyda chyfrifoldeb am bortffolio'r Gymraeg) a Phwyllgor y Gymraeg ar faterion amrywiol yn ymwneud â'r Gymraeg.

- **Nicea 1700**

  Mae 2025 yn nodi 1700 mlwyddiant Cyngor Nicea, achlysur a fyddai'n cael ei gofáu'n eciwmenaidd mewn sawl ffordd y flwyddyn nesaf. Ym mis Hydref, mae'r Eglwys yng Nghymru yn bwriadu cynnal Cynhadledd Ddiwinyddol Cymundeb Porvoo 2025 yng Nghaerdydd, i fyfyrio ar arwyddocâd Cyngor Nicea.

## Diweddariad ar aelodaeth y Pwyllgor Sefydlog

**24/27**

Derbyniodd y Pwyllgor Sefydlog nodyn yn cofnodi bod y Corff Llywodraethol wedi enwebu'r Esgob David Morris i fod yn aelod o'r Pwyllgor Sefydlog yn eu cyfarfod ym mis Ebrill.

## Dyddiad y cyfarfod nesaf

**24/25**

Cadarnhaodd y Pwyllgor Sefydlog y byddai cyfarfod ar-lein y Pwyllgor Sefydlog a drefnwyd ar gyfer dydd Iau 28 Tachwedd 2024 yn dechrau am 17.30 y prynhawn hwnnw. Byddai'r cyfarfod yn cynnwys agenda weithredol fer, a'r brif eitem fyddai cymeradwyo cyllideb 2025 gan Gorff y Cynrychiolwyr.

Roedd y cyfarfod strategol ar-lein a drefnwyd ar gyfer dydd Iau 26 Medi wedi'i ganslo, gan na fyddai'r busnes arfaethedig ar gyfer y cyfarfod hwnnw yn barod erbyn hynny.

## Gweddi i gloi

**24/29**
Offrymodd yr Archesgob weddi i gloi'r cyfarfod.

# Mân welliant cyfansoddiadol arfaethedig

## Llyfrau Log, Llyfrau Tir a Rhestri Eiddo - Cadeirlannau

**Drafft**

**Ym Mhennod IV C, mae Adran 15 yn diwygio'r frawddeg olaf fel y gwelir isod:**

Ar yr amod, yn achos Eglwys Gadeiriol (ac eithrio Eglwys Gadeiriol Sant Gwynllyw), mai cyfrifoldeb y Deon a'r Cabidwl fydd cwblhau'r Llyfr Log, y Llyfr Tir a'r Rhestr Eiddo.

**Nodyn Esboniadol**

Pan sefydlwyd Esgobaeth Mynwy yn y lle cyntaf, nid oedd eglwys gadeiriol o fewn ffiniau'r Esgobaeth newydd. Dynodwyd Eglwys y Plwyf Gwynllyw Casnewydd yn 'ddirprwy Gadeirlan' ond parhaodd yn ffurfiol yn Eglwys y plwyf gyda phlwyf a Chyngor Plwyf Eglwysig. Yn hanesyddol, roedd nifer o leoedd yn y Cyfansoddiad lle'r oedd y dynodiad 'dirprwy Gadeirlan' yn hytrach na statws Cadeirlan llawn yn golygu bod gan y Cyngor Plwyf Eglwysig gyfrifoldebau a oedd yn gyfrifoldeb Deon a Chabidwl yn y pum Cadeirlan arall.

Yn dilyn hynny, rhoddwyd statws cadeirlan lawn i Sant Gwynllyw (sef Eglwys Gadeiriol Casnewydd bellach) ac (yn fwy diweddar) mae ad-drefnu bugeiliol yn golygu nad oes plwyf wedi'i atodi i Gadeirlan Casnewydd (ac felly dim Cyngor Plwyf Eglwysig/Ardal Weinidogaeth). Mae'r gwelliant hwn felly yn ei gwneud yn glir bod gan y Deon a'r Cabidwl gyfrifoldeb am y Llyfr Log, Llyfr Tir a'r Rhestr Eiddo yng Nghadeirlan Casnewydd yn hytrach na'r Cyngor Plwyf Eglwysig (nad yw'n bodoli mwyach).

Pasiwyd gwelliant cyfatebol yn Rheolau Comisiwn y Cadeirlannau a'r Eglwysi gan y Corff Llywodraethol ym mis Ebrill 2024; dyma un o'r ddau le arall yn y Cyfansoddiad lle'r oedd cyfeiriad at Gyngor Plwyf Eglwysig Gwynllyw Casnewydd. Bydd cyfeiriad unigol yn parhau am y tro, yn Rheolau'r Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd. Caiff hyn ei grybwyll wrth y Pwyllgor Rheolau maes o law (y corff sydd â'r pŵer i ddiwygio'r rheolau hyn).